

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams.

C665 COFNODION –

RESOLVED – T H A T the minutes of the meeting held on 13th September, 2021 be approved as a correct record.

C666 DATGANIADAU BUDDIANT –

Enw'r Cynghorydd

Y Cynghorydd B.T. Gray

Natur y Buddiant

Y buddiant yn ymwneud ag Eitem 11 yr Agenda - Cais i apelio peidio â phenderfynu ar Gais Cynllunio'n ymwneud â Maes y Ffynnon, Tresimwn fel Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a fyddai'n trafod y mater yn y pen draw. Gadawodd y Cynghorydd Gray y cyfarfod pan oedd y mater hwn yn cael ei ystyried.

Y Cynghorydd E. Williams.

Y buddiant yn ymwneud ag Eitem 11 yr Agenda - Cais i apelio peidio â phenderfynu ar Gais Cynllunio'n ymwneud â Maes y Ffynnon, Tresimwn fel Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a fyddai'n trafod y mater yn y pen draw. Gadawodd y Cynghorydd Gray y cyfarfod pan oedd y mater hwn yn cael ei ystyried.

C667 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR REOLAU ETHOLIADAU LLEOL (PRIF ARDALOEDD) (CYMRU) 2021 DRAFFT A RHEOLAU ETHOLIADAU LLEOL (CYMUNEDAU) (CYMRU) 2021 DRAFFT (CYF) –

Cyflwynwyd y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 22 Mehefin 2021 i'r Cabinet fel y nodwyd yn yr agenda.

No.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth ynghylch Cwestiwn 11 a dywedodd y dylai'r Rheolau ei gwneud yn ofynnol i unigolion sy'n sefyll etholiad fod ar y Gofrestr Etholwyr lle'r oeddent yn byw, gan y byddai hyn yn helpu i gadarnhau pwy yw'r Swyddog Canlyniadau.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch darparu datganiadau personol ac roedd y Pwyllgor Craffu wedi argymhell cytundeb Pwyllgor y Cabinet i'r opsiwn o ddatganiad personol i'w ddarparu gan ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Prif Gyngor.

Eglurodd y Swyddog Canlyniadau fod yr ymateb yn Atodiad A mewn perthynas â datganiadau personol yn galw am i'r Rheolau drafft fod yn fwy unol â Gorchymyn Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau 2012. Ar hyn o bryd, roedd y Rheolau drafft yn caniatáu i ymgeisydd ddatgan pam ei fod yn sefyll i'w ethol mewn unrhyw ddatganiad personol, ac argymhellwyd yn Atodiad A na ddylent allu gwneud sylwadau ar ymgeiswyr eraill.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried y sylwadau

PENDERFYNWYD – BOD sylwadau'r Pwyllgor Craffu yn cael eu nodi, a bod cytundeb y Pwyllgor Craffu i'r opsiwn o ddatganiad personol i'w ddarparu gan ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Prif Gyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Medi, 2021.

Y rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys y sylwadau a'r adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu ar 22 Medi 2021.

C668 CABINET PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2021 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cabinet fod y cyfarfod wedi ystyried y datganiad cyfrifon drafft, trefniadau llywodraethu drafft, y Cynllun Busnes Blynyddol, Strategaeth Ynni Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a blaenoriaethau gweithredu ynghyd â chynnig ar gyfer mynychu digwyddiad MIPIM yn y dyfodol yn 2022.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2021 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

C669 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2021 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Tynnodd y Cyngorydd Gray sylw'r Cabinet at y pwysau parhaus ar leoliadau allanol a dod o hyd i gartrefi maeth i blant. Lanswyd brand Maethu Cymru yn ddiweddar, gyda hysbysebion yn y wasg genedlaethol, a'r gobaith oedd y byddai'n denu ac yn cefnogi mwy o bobl i faethu gyda'r Awdurdod Lleol. Roedd y pwysau ar ddod o hyd i leoliadau a'r costau a ysgwyddir yn rhywbeth yr oedd y Panel Rhianta Corfforaethol yn ei fonitro.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2021 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

C670 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghori ar y Cyd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2021 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd y bu trafodaeth dda ar ddefnyddio ceir cronfa, materion teithio yn ystod y pandemig, diweddariad ar arolygon lles, datganiad caethwasiaeth fodern, diweddariad ar iDev/e-ddysgu, system Oracle a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Cydnabod GIG a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2021 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

C671 DIWEDDARIAD MENTRAU GWEITHIO CYDWEITHREDOL STRATEGOL. (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Roedd gweithgarwch ar y cyd wedi cynyddu'n gyflym mewn ymateb i'r hinsawdd ariannol heriol ac i gydnabod y gwerth y gallai gweithio mewn partneriaeth i rannu sgiliau, arbenigedd a phrofiad ei gael wrth fynd i'r afael â materion cymhleth.

Roedd y Compendiwm Mentrau Gweithio Strategol (Atodiad A) yn rhoi trosolwg dros weithgarwch cydweithredol lefel strategol yr oedd y Cyngor yn ymwneud ag ef ac yn manylu ar y gwahanol fentrau sydd ar y gweill.

No.

Cynhaliwyd adolygiad o'r Compendiwm i adlewyrchu'r newid mewn rhai gweithgareddau partneriaeth a oedd yn dod yn rhan o fusnes craidd.

Awgrymwyd bod y Cabinet yn symud o dderbyn diweddariadau chwarterol ar fentrau cydweithio strategol i ddiweddariadau chwe misol i nodi cynnydd perthnasol yn erbyn mentrau. Awgrymwyd hefyd bod adroddiadau cynnydd yn symud i adroddiadau eithriadau, gyda chynnydd manwl yn cael ei adrodd i'r Cabinet drwy Adroddiad y Cabinet yn hytrach na thrwy'r ddogfen Gompendiwm ei hun.

Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai adroddiadau'n dal i fod ar gael ar wahân yn rheolaidd, drwy lwybrau eraill, e.e., byddai diogelwch cymunedol yn dal i adrodd yn fisol, byddai gwybodaeth am Gyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cael ei chyflwyno drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac ati. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai unrhyw faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn dal i allu cael eu cyflwyno i'r Cabinet drwy eithriad neu drwy gyfrwng adroddiad brys, yn ôl y gofyn.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y mentrau cydweithio strategol a oedd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau'r Cyngor a chanlyniadau ac amcanion lles y Cyngor yn cael eu nodi.
- (2) BOD y cynigion i symud i adroddiadau eithriadau a derbyn adroddiadau bob chwe mis mewn perthynas â'r materion hyn yn cael eu cymeradwyo.
- (4) BOD yr adroddiad yn cael ei anfon drwy e-bost at bob Aelod etholedig, Clerc Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi diweddariadau manwl ar gynnydd yn erbyn y mentrau gwaith cydweithredol.
- (3) Rhoi trosolwg i Aelodau etholedig, partneriaid lleol a phartneriaid strategol o fentrau cydweithio strategol.

C672 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL: CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson ar gyfer cydweithredu rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CBC). Roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu CBCau drwy Reoliadau.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar gyflwyno rheoliadau a chanllawiau i gyd-fynd â chyflwyno CBCau dros y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth gan y Cabinet i ymateb y Cyngor (Atodiad A) i'r ymgynghoriad diweddaraf ynghylch y canllawiau sy'n cefnogi sefydlu'r pedwar CBC.

Cynlluniwyd ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth bellach ar gyfer gweithredu'r CBCau a'u swyddogaethau ar gyfer hydref 2021 a byddai ymgynghoriad pellach yng Ngwanwyn 2022 yn cwmpasu unrhyw ddarpariaethau fyddai'n weddill ac y gallai fod eu hangen ar CBCau ond nad oedd yn debygol o fod eu hangen ar yr adeg y dechreuon nhw gyflawni eu swyddogaethau. Byddai adroddiadau pellach i'r Cabinet yn dilyn maes o law.

Wrth gyfeirio ar y sylwadau yn eitem 17 yr agenda dywedodd yr Arweinydd wrth y Cabinet fod y Pwyllgor Craffu wedi argymhell y dylid gofyn i'r Cabinet ystyried barn y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â darparu'n ddigonol ar gyfer rôl y Pwyllgor Craffu ar Gydbwyllgorau Corfforaethol. Cytunodd yr Arweinydd, pe bai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dod yn Gyd-bwyllgor Corfforaethol, fod angen craffu'n ddigonol. Roedd cwestiwn 5 yn Atodiad A hefyd yn cyfeirio at ganllawiau digonol a phriodol ar lywodraethu a chraffu o fewn y CBCau.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor Llawn benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad a'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad yn cael ei gytuno a'i gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- (2) BOD y Weithdrefn Penderfyniadau Brys a nodir yn Adran 14:14 Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei chymeradwyo o ran Penderfyniad (1) er mwyn bodloni'r dyddiad cau, sef 4 Hydref, 2021.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Galluogi'r Cyngor i ymateb i'r Ymgynghoriad ar CBCau.

No.

(2) Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

**C673 CRONFA GRANT CYMUNEDAU CRYF 2020-2025 (DA/AA)
(CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y Rhaglen Grant Cymunedau Cryf (GCC) yn y flwyddyn gyfredol a gofynnodd am gymeradwyaeth i ddyfarnu cyllid i'r ail gylch o geisiadau i'r Prif Gronfa Grant.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y ffynhonnell ariannu wedi'i chynllunio'n benodol i gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol blaenorol fel 'Cymunedau Cryfach' a 'Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Dyfodol Disgleiriach' bellach.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cyllid grant o hyd at £150,264 a chymeradwyo argymhellion y Panel Gwerthuso fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

(1) BOD cynnwys yr adroddiad ac Atodiadau B ac C yn cael eu nodi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi i Gyllid Grant Cymunedau Cryf gael ei ddyfarnu i gynigion fel yr amlinellir yn Atodiad A ynghlwm wrth yr adroddiad, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a chwmpas y cynllun.

(2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C674 CAIS I APELIO PEIDIO Â PHENDERFYNU AR GAIS CYNLLUNIO
SY'N YMWNEUD Â MAES Y FFYNNON, TRESIMWN (WTA) (CRAFFU – TAI A
CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

(Roedd y Cynghorwyr Gray a Williams wedi datgan diddordeb a gadawon nhw'n cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.)

Daeth yr adroddiad â chynnig i geisio awdurdod i apelio yn erbyn diffyg penderfyniad neu wrthod (yn ôl yr angen) cais cynllunio yn ymwneud â Maes y Ffynnon, Tresimwn at sylw'r Cabinet.

Roedd y cais cynllunio yn ymwneud â'r bwriad i ddarparu 10 o gartrefi cyngor newydd oedd mawr eu hangen, gan gynnwys llety pobl hŷn, yn ward Gwenfô.

No.

Yn eu cyfarfod ar 1 Medi 2021, methodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio â phenderfynu ar y cais cynllunio ac ni allent roi rheswm cynllunio dilys dros wrthod y cais.

Gohiriwyd y mater wedyn ar gyfer Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i'w ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Wilkinson nad oedd bellach yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac felly gallai aros a siarad ar yr eitem. Dywedodd fod 196 o bobl ar restr aros tai'r Cyngor ar hyn o bryd a oedd am fyw yn Ward Gwenfô.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr ardal dan sylw yn hen safle garej nad oedd yn cael ei ddefnyddio bellach ac argymhellwyd bod y Cabinet yn cymeradwyo'r apêl ynghylch diffyg penderfyniad gan nad oedd rheswm cynllunio wedi'i roi i'w wrthod.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn safle tir llwyd o garejys nad oedd yn cael eu defnyddio bellach ac y gellid ei ddefnyddio ar gyfer 10 uned fel rhan o ddatblygiad poced o fewn cymuned.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu neu Reolwr y Rhaglen Datblygu Tai ar ran 'Tai a Gwasanaethau Adeiladau' [yr ymgeisydd] i apelio yn erbyn diffyg penderfyniad neu wrthodiad (yn ôl yr angen) y cais cynllunio'n ymwneud â Maes y Ffynnon, Tresimwn.

Y rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod y cynnig datblygu yn cael ei ystyried gan arolygydd cynllunio annibynnol os bydd y Pwyllgor Cynllunio naill ai'n methu â phenderfynu neu'n gwrthod y cais yn y gobaith y gellid sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy y mae mawr eu hangen.

C675 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2021-2036: YMGYNGHORIAD AR YR ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT A'R CYTUNDEB CYFLENWI DRAFFT (WCRC) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen ag adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ym mis Hydref 2020, paratowyd Adroddiad Adolygu drafft a Chytundeb Cyflawni drafft newydd. Argymhellodd yr adroddiad y dylid cymeradwyo'r dogfennau drafft hynny at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd.

Roedd yr Adroddiad Adolygu yn rhan allweddol o sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Roedd yn nodi'r newidiadau deddfwriaethol, cenedlaethol a pholisi allweddol a oedd wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 ac roedd yn cynnwys asesiad o bolisiâu presennol y Cynllun Datblygu

No.

Lleol i sefydlu pa rai oedd yn dal i fod yn effeithiol a pha bolisiâu y gallai fod angen eu hadolygu.

Roedd y Cytundeb Cyflawni drafft newydd yn cynnwys dwy elfen allweddol. Amserlen sy'n nodi sut y byddai'r Cyngor yn rheoli'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) fyddai'n nodi pwy, pryd a sut y byddai'r Cyngor yn cynnal ymgysylltiad ac ymgynghori wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni drafft (yn amodol ar ystyried unrhyw newidiadau a argymhellwyd gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio) at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd yn cael eu cymeradwyo.

(2) BOD yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni drafft yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w hystyried.

(3) BOD ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos yn cael ei gynnal ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'r Cytundeb Cyflawni drafft.

(4) BOD adroddiad dilynol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ac unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu paratoi a'u hystyried gan y Cyngor.

(5) RHOI awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio, i wneud newidiadau teipograffyddol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen cyn eu cyhoeddi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cydymffurfio â Rheoliad 41 a Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2015).

(2) Sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.

(3) Cydymffurfio â Rheoliad 41 a Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2015).

(4) Cydymffurfio â Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2015).

(5) Gwneud newidiadau teipograffyddol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

C676 ANIFEILIAID FEL GWOBRAU A RHYDDHAU BALŴNS AR DIR CYNGOR BRO MORGANNWG (WCRC) (CRAFFU – BYW’N IACH A GFAL CYMDEITHASOL) –

Roedd yr RSPCA wedi cysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â gweithredu gwaharddiad ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

Roedd yr RSPCA wedi darparu rhestr o resymau pam roedd rhoi gwobrau o'r fath yn peri bryder iddynt gan gynnwys lles anifeiliaid, rhyddhau gwobrau nad oedd pobl eu heisiau i'r amgylchedd a'r arferion sy'n gysylltiedig â gwobrau o'r fath. Yn ogystal ag ystyried gwahardd anifeiliaid byw, roedd cyfle wedi codi hefyd, mewn perthynas â'r 'Argyfwng Natur' a ddatganwyd yn ddiweddar, i edrych ar arferion eraill a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd ac a oedd wedi digwydd ar dir y Cyngor yn y gorffennol megis rhyddhau Balwnau.

Gwaharddodd y Cyngor ryddhau Llusernau Tsieineaidd ar ei dir yn 2015.

Argymhellwyd felly gwahardd rhyddhau Balwnau hefyd.

Yn ogystal, cynigiwyd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am waharddiad cenedlaethol ar bob Tir Cyhoeddus a Phreifat ar gyfer rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau a rhyddhau Llusernau Tsieineaidd a Balwnau.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cabinet ei fod wedi derbyn gohebiaeth o'r blaen ynghylch rhoi pysgod aur fel gwobrau a fyddai'n cael ei chynnwys yn Argymhelliad (1) yr adroddiad.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad gan ei bod yn credu nad ddylai unrhyw un benderfynu cael anifail anwes heb wir ystyried neu ar hap mewn digwyddiad. Gallai balŵns hefyd gyrraedd tir amaethyddol neu'r môr ac achosi niwed i anifeiliaid morol. Roedd yn bwysig nodi nad gwaharddiad ar falwnau eu hunain oedd hyn, ond yn fater o ystyried ble y gallent gyrraedd yn y pen draw ac o ddefnyddio balwnau'n gyfrifol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau, ar unrhyw ffurf, ar dir Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei weithredu.

(2) BOD rhyddhau balwnau yn cael ei wahardd ar holl dir Cyngor Bro Morgannwg.

(3) BOD y Cyngor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am waharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau, a rhyddhau Balwnau a Llusernau Tsieineaidd ar dir cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Atal rhoi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir y Cyngor oherwydd y gofid a achosir i anifeiliaid gan wobrau o'r fath.
- (2) Atal balwnau rhag cael eu rhyddhau o dir y Cyngor a all achosi niwed i fywyd gwyllt/da byw.
- (3) Annog Llywodraeth Cymru i weithredu gwaharddiad ehangach ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau a rhyddhau Balwnau a Llusernau Tsieineaid am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad.

C677 ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL RHEOLI ANSAWDD AER AWYR LLEOL 2021 (WCRC) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Dan Adran 82 Deddf Amgylchedd 1995 mae gan bob awdurdod lleol rwymedigaeth i adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd yn rheolaidd, a phennu a yw amcanion ansawdd aer yn debygol o gael eu cyflawni ai peidio.

Yn unol â hyn, lluniodd y Cyngor adroddiad Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Roedd yr adroddiad yn bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol a oedd yn archwilio canlyniadau monitro ansawdd aer a gynhaliwyd ledled Bro Morgannwg yn ystod 2020.

Roedd angen cymeradwyo a chyflwyno copi drafft o'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol i Lywodraeth Cymru yn ddim hwyrach na 30 Medi, 2021.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod ansawdd aer ym Mro Morgannwg yn parhau i gyflawni'r holl amcanion ansawdd aer perthnasol.

Dywedodd y Cynghorydd Williams y dylid cydnabod bod monitro gweithredol yn parhau ledled Bro Morgannwg ond bod pob ardal bellach o fewn y lefelau penodol a argymhellir.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD canlyniadau monitro a gasglwyd yn 2018 yn cael eu nodi.
- (2) BOD Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2021 yn ei ffurf derfynol, fel yr atodwyd yn Atodiad 1, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniadau

No.

(1a2) Roedd yr adroddiad yn bodloni gofynion y broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol statudol o dan Ran IV Deddf yr Amgylchedd 1995, ac roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau data ansawdd aer a gasglwyd yn 2020.

C678 ADRODDIAD ADOLYGIAD ANNIBYNNOL BIOMAS BARRY (WCRC) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â phenderfyniad gan y Cyngor ar 26 Chwefror, 2020 yn ymwneud â Gwaith Biomas y Barri a oedd yn galw am "Adolygiad Annibynnol o benderfyniad Cyngor Bro Morgannwg ar yr holl geisiadau cynllunio'n ymwneud â Llosgydd y Barri".

Penodwyd bargyfreithiwr annibynnol yn arbenigo mewn Cyfraith Cynllunio ac Amgylcheddol, Annabel Graham Paul, gan y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar ran y Cyngor i gynnal yr adolygiad annibynnol.

Wedi ei atodi yn Atodiad 1, roedd yr Adroddiad Adolygu Annibynnol, gyda'r canfyddiadau wedi eu crynhoi ym mharagraffau 2.2 – 2.6 o adroddiad y Cabinet, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol ym mharagraff 2.7 mewn perthynas â materion cysylltiedig yn codi wedi Chwefror 2020.

Nodwyd sylwadau'r Adolygydd Annibynnol hefyd ym mharagraffau 2.7.9 a 2.7.10 mewn perthynas â phenderfyniad interim Llywodraeth Cymru dyddiedig 29 Gorffennaf, 2021.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Baragraff 2.7.10 yr adroddiad lle'r oedd y bargyfreithiwr annibynnol wedi datgan a ddylai'r datblygiad fod wedi cael Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn hanesyddol ai peidio yn fater o farn academiaidd erbyn hyn. Ychwanegodd y Cynghorydd Williams fod Llywodraeth Cymru bellach yn edrych ar fater AEA ers i'r adroddiad fod ar gael.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD yr Adroddiad Adolygu Annibynnol ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) O roi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau craffu priodol a nodi'r Adolygiad Annibynnol.

C679 LLYSOEDD TENIS PARC ROMILLY (HCD) (CRAFFU – BYW’N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Yn dilyn adroddiad y Cabinet ym mis Ionawr 2021 a'r hysbysu dilynol am y cynnig i waredu'n ymwneud â'r cyrtiau tenis ym Mharc Romilly, derbyniwyd gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r cynigion.

Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau, nodwyd eu bod yn ymwneud â chynlluniau i godi tâl am y cyfleusterau a oedd ar gael yn ddi-dal gynt. Pennwyd ffioedd yn flaenorol ar gyfer defnyddio pob cwrt tenis cyhoeddus ond oherwydd y costau'n gysylltiedig â chasglu ffioedd nid oeddent wedi ar waith ers sawl blwyddyn. Byddai ffioedd yn cael eu casglu drwy app a fyddai hefyd yn hysbysu chwaraewyr am argaeledd a chynigion.

Roedd y cynigion grant gan Tennis Cymru a Chwaraeon Cymru i adnewyddu'r cyrtiau'n llawn yn amodol ar Tennis Cymru yn rheoli'r cyfleusterau yn y dyfodol. Roedd y grant a gynigiwyd yn debygol o gael ei gynnig i Gyngor arall os na chaiff ei dderbyn gan y Cyngor. Roedd cyflwr y cyrtiau ar hyn o bryd hefyd yn destun pryder a byddai'r gwaith adnewyddu yn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cymhelliant Tennis Cymru i fuddsoddi yn y cyrtiau oedd annog mwy o chwarae tennis. Lle'r oedd y cynlluniau hyn wedi'u rhoi ar waith ledled Cymru, roeddent wedi gweld cynnydd mewn cyfranogiad. Byddai defnydd am ddim yn cael ei gynnig ar adegau penodol a byddai cyrtiau eraill yn y Barri a weithredir gan y Cyngor yn parhau i fod am ddim i'w defnyddio.

Byddai'r holl arian a gynhyrchid o'r Cyrtiau ym Mharc Romilly yn cael ei ail-fuddsoddi gan Tennis Cymru i gynnal y cyrtiau neu ar gyfer gwaith datblygu tennis pellach ym Mro Morgannwg.

Dywedodd y Cyngorydd Gray ei bod yn bwysig nodi'r cynnydd diweddar mewn diddordeb mewn tennis i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel a'i bod hefyd yn bwysig gweithio gyda phartneriaid i allu darparu cyfleusterau cymunedol o'r fath. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai'r cynnig hefyd yn helpu gyda datblygu chwaraewyr ifanc i allu chwarae i safon uwch.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ymwneud â gwaredu cyrtiau tenis Parc Romilly ar ffurf prydles i Tennis Cymru yn cael eu nodi.

(2) BOD, wedi ystyried y gwrthwynebiadau ac, am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, gwaredu'r tir i Tennis Cymru ar ffurf prydles am 7 mlynedd yn cael ei gymeradwyo.

No.

- (3) BOD awdurdod yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu'r brydles.
- (4) BOD datganiad i'r cyfryngau yn cael ei gynhyrchu yn rhoi gwybod am y rhesymau dros y penderfyniad gan gynnwys cadarnhad y bydd y cyrtiau tennis ar gael i'w defnyddio am ddim ar adegau penodol.
- (5) BOD y Gwrthwynebwyr yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cabinet.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) O roi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod y cyrtiau tennis ym Mharc Romilly yn parhau i fod yn gwbl weithredol yn y dyfodol rhagweladwy gyda chymorth grant gan Tennis Cymru a Chwaraeon Cymru.
- (3) Cwblhau'r dogfennau cyfreithiol sydd eu hangen i roi'r brydles ar gyfer y cyrtiau tennis i Tennis Cymru.
- (4) Rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr amgylchiadau llawn dros brydlesu'r cyrtiau tennis i Tennis Cymru.
- (5) Cadarnhau safbwynt y Cyngor.

C680 MATERION YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EU BOD YN FRYS –

PENDERFYNWYD – BOD y materion canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu eu bod yn frys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd cofnod yn cael eu hystyried.

C681 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y CYD-BWYLLGOR CORFFORAETHOL: CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT (CYF) –

(Brys oherwydd yr angen i'r Cabinet ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu cyn i ymateb y Cyngor gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 4 Hydref, 2021)

Cyflwynwyd y sylwadau brys o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 22 Medi 2021 i'r Cabinet.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet nodi'r sylwadau ar hyn o bryd gan eu bod hefyd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cabinet, wedi eu nodi fel Eitem 9 ar agenda'r Cabinet.

PENDERFYNWYD – BOD yr adborth gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol a

No.

ac Adnoddau yn cael ei nodi ac ystyried y mater ymhellach o dan Eitem 9 agenda'r Cabinet.

Y rheswm dros y penderfyniad

Ystyried y sylwadau a'r adroddiad dan Eitem 9 agenda'r Cabinet.

**C682 ADOLYGIAD A STRWYTHUR Y TIM ARWEINYDDIAETH
GWEITHREDOL UWCH (CYF) –
(Brys oherwydd yr angen i sicrhau bod y Cabinet yn derbyn sylwadau'r
Pwyllgor Craffu cyn y Cyngor Llawn ar 28 Medi, 2021)**

Ystyriwyd yr eitem hon ar ddiwedd y cyfarfod. Gofynnwyd i Swyddogion Uwch oedd â buddiant yn yr eitem adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Cyflwynwyd y sylwadau brys o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 22 Medi 2021 i'r Cabinet.

Dywedodd yr Arweinydd bod yr adroddiad a chynigion y Cabinet wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau i'w hystyried a bod unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Craffu yn cael eu hystyried mewn cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhelir ar ddydd Mawrth, 28 Medi 2021.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD y cyfeiriad a'r sylwadau a wnaed gan yr aelod o'r cyhoedd a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys y cyfeiriad, trafodaethau yn y cyfarfod Craffu ac wrth nodi y bydd y cyfeiriad yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 28 Medi.

**C683 COFNODION PANEL CYNGHORI LLYWODRAETHWYR
AWDURON LLEOL–
(Brys oherwydd yr angen i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo penodiadau
Llywodraethwyr ALI ar gyfer tymor ysgol yr hydref)**

Cyflwynwyd adroddiad brys cyfarfod Panel Cyngori Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol ar 23 Medi, 2021 i'r Cabinet.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn bwysig bod yr ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniadau cyn gynted â phosibl, ar ôl gwneud cais am y gwahanol swyddi, er mwyn i ysgolion allu dechrau manteisio ar eu harbenigedd.

No.

Roedd Aelodau'r Panel wedi derbyn nifer o geisiadau gan bobl ymroddedig a thalentog a nodwyd y penodiadau ar Dudalennau 2 i 3 y cofnodion. Roedd rhai swyddi heb eu llenwi, a byddai'r Dirprwy Arweinydd yn annog unrhyw un â diddordeb yn y rolau hynny i gysylltu â'r tîm Cymorth Llywodraethwyr.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cofnodion cyfarfod Panel Cyngori Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2021 yn cael eu nodi.

(2) BOD y penodiadau perthnasol fel y'u cynhwysir o fewn cofnodion 23 Medi 2021 yn cael eu gwneud i'r ysgolion a bod y swyddi gwag yn cael eu hysbysebu fel y bo'n briodol.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1) Nodi'r cofnodion.

(2) Cytuno ar y penodiadau i Gyrrff Llywodraethu'r gwahanol ysgolion, gan roi sylw i'r ceisiadau a dderbyniwyd ac er mwyn gallu hysbysebu swyddi gwag fel y bo'n briodol.